# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNGHORI'R CABINET – ATAL A DIWYGIO GOFAL CYMDEITHASOL

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD LLUN, 19 MEDI 2016 AM 2.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| U C Clay | J P Curtice | J E C Harris |
| E J King | R V Smith | |

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd JEC Harris - Aelod y Cabinet dros Oedolion a Phobl Ddiamddiffyn

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M C Child, C R Doyle, V M Evans, J A Hale a/ac T M White

21 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau.

22 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Awst 2016 yn gofnod cywir.

23 **Y DIWEDDARAF AR BEDWAR ADOLYGIAD COMISIYNU. (LLAFAR)**

Rhoddwyd y diweddaraf am adolygiadau comisiynu parhaus i'r pwyllgor gan y Cynghorydd J E C Harris, Aelod y Cabinet dros Oedolion a Phobl Ddiamddiffyn.

Ychwanegodd fod angen gwaith parhaol ar yr Adolygiadau Comisiynu Gofal Preswyl a Chanolfannau Dydd. Roedd Adolygiadau Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu ac Anableddau Corfforol, a Gofal Cartref i'w cyflwyno gerbron y Cabinet. Unwaith y cytunid arnynt gan y Cabinet, byddai'r adolygiadau yn cael eu dosbarthu ar gyfer ymgynghoriad â'r cyhoedd.

Dywedodd ei bod hi am gael sylwadau grymus ynghylch disgwyliadau'r cyhoedd o'r gwasanaethau.

**PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

24 **TELEDU CYLCH CYFYNG.**

Adroddwyd cylch gorchwyl yr adolygiad TCC i'r Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD** y byddai trafodaethau pellach yn cael eu cynnal rhwng y Cadeirydd a Chadeirydd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet.

25 **YMCHWILIAD I IECHYD A DEIET YN ABERTAWE.**

Adroddwyd cylch gorchwyl yr ymchwiliad i iechyd a deiet yn Abertawe i'r Pwyllgor.

Trafodwyd y cylch gorchwyl gan y Pwyllgor, yn enwedig cyfle potensial yr ymchwiliad a nodi'r swyddog arbenigedd perthnasol o fewn yr awdurdod.

**PENDERFYNWYD** y dylai trafodaethau pellach cael eu cynnal yn ystod y cyfarfod nesaf a drefnir.

26 **RHAGLEN WAITH 2016/17.**

Adroddwyd am Raglen Waith Craffu 2016/2017 er gwybodaeth. Dywedwyd bod ymweliad i Gyngor Sir Fynwy wedi ei drefnu ar gyfer 13 Hydref 2016.

**PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.26 pm

**CADEIRYDD**